

4 Mawrth 2020

Cronfa Michael Sheen ar gyfer cymunedau a darwyd gan lifogydd ar agor ar gyfer ceisiadau

Actor o Gymru a Llywydd CGGC yn cyhoeddi cyllid ar gyfer mudiadau gwirfoddol sy'n cynorthwyo cymunedau yng Nghymru sydd wedi'u heffeithio gan Storm Dennis.

Mae cronfa newydd wedi'i hagor gan arian a godwyd gan Michael Sheen, a bydd yn helpu mudiadau gwirfoddol yng Nghymru (fel elusennau, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol) sy'n gweithio mewn ardaloedd a effeithiwyd gan y llifogydd diweddar.

Gwnaeth [gofundme](#) yr actor godi £50,000 trwy gyfraniadau gan y cyhoedd mewn llai na phedwar diwrnod, ac mae'n parhau i ddringo i'w nod newydd o £75,000.

[Mae'r gronfa ar agor nawr](#) i fudiadau gwirfoddol sy'n cynorthwyo cymunedau a gafodd eu taro gan y storm.

Nod y gronfa yw cefnogi'r grwpiau a'r mudiadau sy'n cymryd camau i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd, gan sicrhau mai'r rhai mwyaf mewn angen sy'n cael budd ohoni.

Cafodd y gronfa ei sefydlu i ategu'r ymdrechion codi arian eraill ar gyfer dioddefwyr llifogydd sy'n cael eu targedu at gefnogi unigolion a busnesau, ac mae Michael Sheen a CGGC yn annog pobl i barhau i roi arian i'r rhain.

'Mae gweld y lluniau o bobl sydd wedi cael eu cartrefi a'u busnesau wedi'u dinistrio gan y llifogydd diweddar, ym mwrdeistref Castell-nedd Port Talbot ble cefais fy magu ac yn yr ardaloedd cyfagos a thu hwnt, yn dorcalonnus,' meddai Sheen, 51.

'Rwy'n gweld pobl yn gweithio gyda'i gilydd i helpu eu ffrindiau a'u cymdogion. Rwy'n gweld cymunedau yn dod ynghyd i helpu ei gilydd. Rwy'n gweld pobl ar y rheng flaen yn gwneud popeth y gallant i gynorthwyo'r teuluoedd hynny sydd wedi gweld eu bywydau'n troi'n llanast llwyr yn y diwrnodau diwethaf.

'Er mwyn parhau â'r gwaith hanfodol hwn, mae'r grwpiau a'r mudiadau sy'n helpu pobl Cymru angen eich cymorth.'

Dyweddodd Ruth Marks, Prif Weithredwr CGGC; 'Mae'n anhygoel gweld sut mae pobl wedi ymateb mewn cymunedau sydd wedi'u heffeithio gan lifogydd, ac rydyn ni'n hynod falch o'r rheini sydd wedi cyfrannu at ymdrech codi arian Michael ac yn ddiolchgar iawn iddynt. Bydd y gronfa hon yn helpu grwpiau ar lawr gwlad er mwyn sicrhau bod yr arian yn cyrraedd y lleoedd sydd mewn angen mwyaf - lle y bydd yn gwneud y gwahaniaeth fwyaf.'

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gronfa yma:

<https://wcva.cymru/cy/trefniadau-ariannu/y-gronfa-helpu-cymru-ar-ol-storm-dennis/>.

NODIADAU I OLYGYDDION

- Mae Michael Sheen wedi cael perthynas agos â CGGC ers dod yn Llywydd anrhydeddus o'r mudiad yn 2017
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Rydym yn bodoli i alluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd
- I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Simon Dowling ar 02920 436596